Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cylch Gorchwyl a Threfniadau Gweithredu

Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu

1. CYFLWYNIAD

1.1. Bydd y Bwrdd yn sefydlu grŵp tymor byr a threfniadau llywodraethu cysylltiedig. Bydd y grŵp yn cael ei adnabod fel **Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu** a bydd yn bodoli tra bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio ar y Fframwaith Gwella Ymyriad wedi'i Dargedu fel y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r cylch gorchwyl manwl a'r trefniadau gweithredu ar gyfer y cyfarfodydd hyn wedi'u nodi isod.

2. PWRPAS

2.1. Pwrpas Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i ymateb i'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Grŵp yn gyfrifol am gasglu, asesu, sicrhau a darparu tystiolaeth i'r Bwrdd am effaith y camau gwella a gymerwyd a byddant yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd mewn perthynas â'r hunanasesiad.

3. PWERAU DIRPRWYEDIG

3.1. Mae Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu wedi'i awdurdodi gan y Bwrdd i wneud y canlynol:

3.1.1. Sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd ddull gweithredu cydlynol ac effeithiol ar gyfer y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu;

3.1.2. Sicrhau digonolrwydd trefniadau sy'n hanfodol i roi sicrwydd, gan gynnwys adroddiadau, gwneud penderfyniadau a chofrestrau risg;

3.1.3. Ceisio sicrwydd bod gwersi'n cael eu dysgu ac, os yw'n briodol, bod y dysgu'n cael ei ddefnyddio ar draws y Bwrdd Iechyd;

3.1.4. Goruchwylio pa mor effeithiol yw cyfathrebu â rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cleifion, staff a phartneriaid, gan sicrhau bod niwed i enw da yn cael ei osgoi fel y bo'n briodol;

3.1.5. Gwneud penderfyniadau brys ar ran y Bwrdd mewn perthynas â rheoli newid sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu ac adrodd am gynnydd yn holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd.

4. Awdurdod

4.1. Gall Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu ymchwilio i unrhyw weithgarwch (clinigol neu anghlinigol) er mwyn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. Gall ofyn i'r Prif Weithredwr am unrhyw wybodaeth y mae'n credu sy'n angenrheidiol i sicrhau bod materion hollbwysig yn weladwy ac er mwyn cynnal tryloywder y Bwrdd llawn.

4.2. Gall y Grŵp Llywio hefyd gael cyngor cyfreithiol allanol neu gyngor proffesiynol annibynnol arall os yw'n credu bod angen gwneud hynny, yn unol â gofynion caffael, cyllidebol a gofynion eraill y Bwrdd.

4.3. Mae gan y Grŵp awdurdod i ystyried a, lle bo'n briodol, argymell i'r Bwrdd gymeradwyo unrhyw bolisi neu strategaeth sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu o fewn ei gylch gorchwyl.

4.4. Mae'r Grŵp Llywio wedi'i awdurdodi i gynnal ac adolygu Cofrestr Risgiau ar gyfer y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu a chynghori'r Bwrdd llawn ar briodoldeb y sgoriau a'r camau lliniaru sydd ar waith.

5. AELODAU

5.1. **Aelodau**

- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth a Dirprwy Brif Weithredwr (Cadeirydd)
- Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
- Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad
- Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
- Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
- Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Chymunedol
- Ysgrifennydd y Bwrdd

Yn bresennol

- Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Corfforaethol
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu ac Ymgysylltu

5.1.1. Gall aelodau annibynnol sy'n gyswllt/cyfaill i uwch-swyddog cyfrifol yn y rhaglen ddod i unrhyw gyfarfod o'r grŵp llywio drwy roi rhybudd i'r Cadeirydd.

5.1.2. Gall swyddogion gweithredol eraill, aelodau annibynnol, swyddogion ac ymgynghorwyr arbennig ymuno fel sy'n ofynnol gan y Cadeirydd, yn ogystal ag unrhyw un arall o'r tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad y mae'r Grŵp Llywio yn credu y dylid eu gwahodd, gan ystyried y materion sy'n cael eu trafod ym mhob cyfarfod.

5.2. Penodi Aelodau

5.2.1. Bydd aelodau Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu yn cael eu pennu gan y Cadeirydd, gan ystyried cydbwysedd sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni cylch gwaith y Grŵp Llywio a bydd yn amodol ar unrhyw ofynion neu gyfarwyddiadau penodol a wneir gan Lywodraeth Cymru. Gall y Cadeirydd benodi Is-gadeirydd os bydd angen.

5.3. Ysgrifenyddiaeth

Bydd yr Ysgrifennydd yn cael ei benodi gan Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.

5.4. Cymorth i Aelodau'r Grŵp

Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd, ar ran y Cadeirydd, yn trefnu cyngor a chymorth i aelodau Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu ar unrhyw agwedd sy'n ymwneud â chyflawni eu rôl.

6. CYFARFODYDD GRŴP LLYWIO'R FFRAMWAITH GWELLA YMYRIADAU WEDI'U TARGEDU

6.1. Cworwm

Rhaid i o leiaf dri aelod ymuno â chyfarfod i sicrhau cworwm o'r Grŵp Llywio.

6.2. Pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd?

Fel arfer, cynhelir cyfarfod bob mis, ond gellir eu cynnal ar fyr rybudd os bydd y Cadeirydd yn gofyn am hynny.

6.3. Tynnu unigolion o'r cyfarfodydd

Gall y Grŵp Llywio ofyn i unrhyw aelod sydd ddim yn aelod o'r Bwrdd ond sy'n dod i'r cyfarfodydd fel arfer beidio â dod i'r cyfarfod er mwyn hwyluso trafodaeth agored a gonest ar faterion penodol.

6.4. Cynnal Cyfarfodydd

Gellir cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb os yw'n ddiogel gwneud hynny neu drwy fideo-gynadledda a thechnoleg debyg, er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cadw pellter cymdeithasol.

7. CYSYLLTIADAU AC ATEBOLRWYDDAU GYDA'R BWRDD A'I BWYLLGORAU/GRWPIAU

7.1. Er bod y bwrdd wedi rhoi awdurdod i Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu gyflawni swyddogaethau penodol fel y nodir yn y cylch gorchwyl hwn, mae'n cadw'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol dros gyflawni yn erbyn y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu.

7.2. Mae Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu yn atebol i'r Bwrdd yn uniongyrchol am ei berfformiad o ran cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn y Cylch Gorchwyl hwn.

7.3. Mae gofynion ymddygiad busnes fel y nodir yn y Rheolau Sefydlog yr un mor berthnasol i weithrediad y Grŵp, ac eithrio'r cworwm.

8. TREFNIADAU ADRODD A SICRWYDD

8.1. Bydd Cadeirydd Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu yn gwneud y canlynol:

8.1.1. Adrodd yn ffurfiol, yn rheolaidd ac yn amserol i'r Bwrdd ar weithgareddau Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu;

8.1.2. Sicrhau bod trefniadau uwchgyfeirio priodol ar waith i roi gwybod i'r Bwrdd llawn am unrhyw faterion brys/critigol a allai effeithio ar weithrediad a/neu enw da'r Bwrdd Iechyd;

9. ADOLYGU

9.1. Bydd y cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu hyn yn cael eu hadolygu gan Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu fel sy'n ofynnol gan y Cadeirydd, ac o leiaf bob 6 mis, gydag unrhyw newidiadau'n cael eu hargymell i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

Dyddiad cymeradwyo: 20/5/21